# PECYN O WYBODAETH BELLACH AM RANNU EICH ANGERDD

## RHANNWCH EICH ANGERDD AT GYNULLEIDFAOEDD A GWAITH YMGYSYLLTU

**a helpwch ni barhau i gyflawni ein gwaith ymgysylltu creadigol ac allgymorth.**

- Mae gwaith y tîm Ymgysylltu Creadigol yn codi ymwybyddiaeth am yrfaoedd yn y celfyddydau trwy gynnal sgyrsiau yn yr ysgol, gweithdai, a theithiau o amgylch y Sherman (wyneb yn wyneb ac yn rhithiol). Yn 2023, bu'r tîm yn gweithio gyda, neu'n rhyngweithio â, 1,823 o blant a phobl ifanc ar draws de Cymru, ac wedi cynnal 264 o sesiynau neu weithdai i bobl ifanc. Bu'r tîm hefyd yn cefnogi 60 o deuluoedd i fynychu ein Gŵyl Deulu yn rhad ac am ddim, ac wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â dros 1,000 o bobl trwy ein prosiectau cymunedol.
- Trwy aelodaeth ein Theatr Ieuenctid mae 210 o bobl ifanc rhwng 4 a 18 oed yn dysgu sgiliau newydd, yn magu hyder ac yn cael hwyl. Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd datblygu creadigol i unrhyw un 18 oed a hŷn drwy'n cwmni theatr amatur, Sherman Players.
- Er mwyn cefnogi mynediad fforddiadwy i'n gwaith rydym yn cynnig yr opsiynau Talwch Faint Gallwch a Thalwch Faint Hoffwch ar gyfer holl ragolygon cynyrchiadau Theatr y Sherman, yn ogystal â Thocynnau Hanner Pris i bawb o Dan 25. Ochr yn ochr â'r cynlluniau hyn, mae ein prisiau Sherman 5 yn galluogi pobl sydd erioed wedi medru ymgysylltu â'r theatr o'r blaen i gael y cyfle i wneud hynny. Rydym hefyd yn cynnig tocynnau am ddim i holl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.



**Gweithgareddau i Deuluoedd yn y Cyntedd**



**Theatr Ieuenctid**



**Sherman Players**

- Mae perfformiadau Paned a Stori gyda'r dydd yn gyfle delfrydol i aelodau hŷn ein cynulleidfa gymdeithasu a mwynhau darlleniadau sgript wrth law. Mae dros 550 aelod o'n cynulleidfaoedd sydd dros 50 oed wedi mynychu perfformiadau Paned a Stori ers mis Ebrill 2022.
- Bob tair blynedd rydym yn cyflwyno cynhyrchiad cymunedol mawr gan wahodd ein cymunedau amrywiol i adrodd eu straeon ar ein llwyfannau. Yn fwyaf diweddar, fe wnaeth 215 aelod o'r gymuned gymryd rhan ym mhrosiect *Love, Cardiff: 50 Years of Your Stories*, gan gynnwys cyfranogwyr o Ddarpariaeth Dydd Cathays; Waulah Cymru; y Gymuned Ddawnsfa Gymreig; Cymdeithas Cwrdaidd Cymru Gyfan, ac aelodau o'r Gymuned Fyddar.
- Rydym yn falch iawn o'n statws fel Theatr Noddfa ac yn dathlu ein cymuned fywiog o Geiswyr Lloches trwy ein rhaglen o weithdai creadigol, ein Gŵyl Noddfa flynyddol a'n gwaith ymgysylltu â chynulleidfaoedd.



**Paned a Stori**

- Ers ei chychwyn yn 2018, mae rhaglen Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu, sy'n rhad ac am ddim, wedi ymgysylltu â 90 o ddramodwyr ifanc 15-18 oed. Yn 2023, fe ddechreuon ni ar ehangu'r rhaglen trwy weithio gyda mudiadau llawr gwlad er mwyn datblygu chwe chanolfan lloeren, gyda ffocws ar gynyddu ymgysylltiad gan leisiau heb gynrychiolaeth ddigonol.



**Cynhyrchiad Cymunedol**